# Strategaeth Cyngor Sir Ceredigion ar Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

---

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Cymeradwywyd gan y Cyngor:

**Gorffennaf 2021**

# Strategaeth Cyngor Sir Ceredigion ar Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

## CYNNWYS


| Cynnwys | Rhif y dudalen |
|---|---|
| Adran 1: Cyflwyniad | 2 |
| Adran 2: Diwylliant, Cyfrifoldeb ac Atal | 7 |
| Adran 3: Darganfod ac Ymchwilio | 10 |
| Adran 4: Rhwystro ac Ymwybyddiaeth | 11 |
| Adran 5: Cynllun Ymateb i Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd | 12 |
| Adran 6: Gwrthwyngalchu Arian | 16 |
| Adran 7: Hyfforddiant | 20 |
| Adran 8: Casgliad | 21 |
| Atodiad 1: Adroddiad i'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian | 22 |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r "Cod ymarfer ar reoli'r risg o dwyll a llygredd" gan CIPFA, "Code of practice on managing the risk of fraud and corruption," yn nodi bod angen strategaeth atal twyll ar sefydliad sy'n nodi ei ddull o reoli risgiau ac yn diffinio cyfrifoldebau o ran gweithredu. Mae'r ddogfen hon yn cyflawni'r diben hwn.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob cyflogai, Aelod etholedig ac Aelod Annibynnol o'r Cyngor.

Mae'r polisi hwn yn gorwedd ochr yn ochr â pholisïau amrywiol eraill y Cyngor, gan gynnwys:

| **Swyddogion:** | **Aelodau:** |
|---|---|
| Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol<br>Polisi Pryderon a Chwynion<br>Rheolau Gweithdrefnau Contractio<br>Cofrestr Risg Gorfforaethol<br>Polisi Disgyblu<br>Polisi Trais Domestig<br>Polisi Datganiadau Gweithwyr a Chofrestru Lletygarwch a Buddiannau<br>Polisi Tâl<br>Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol<br>Polisi RIPA<br>Polisi Cyfryngau Cymdeithasol<br>Polisi a Gweithdrefnau Gwahardd<br>Polisi Chwythu Chwiban | Polisi Datganiadau Aelodau a Chofrestru Lletygarwch a Buddiannau<br>Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau<br>Llawlyfr Aelodau<br>Lwfansau Aelodau<br><br>**Aelodau a Swyddogion:**<br>Polisi Diogelu Data a GDPR<br>Polisi Ebyst<br>Polisi Diogelwch Gwybodaeth<br>Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed<br>Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) Recriwtio Diogel<br>Rheoliadau Ariannol<br>Polisi Caethwasiaeth Fodern |

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldeb i sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll, llygredd a llwgrwobrwyo yn cael eu rheoli'n effeithiol ar draws pob rhan o'r sefydliad.

Bydd y Cyngor yn ystyried deddfwriaeth, Rheoliadau, canllawiau statudol a chodau ymarfer perthnasol amrywiol, gan gynnwys Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd, Rhwystro Twyll a Llygredd yn Lleol, ac Amddiffyn Pwrs y Wlad.

**Moeseg**

Mae gweithwyr a gyflogir gan y Cyngor yn gwasanaethu'r Awdurdod cyfan, ac maent yn atebol, a chanddynt ddyletswydd i'r Cyngor. Rhaid i weithwyr weithredu'n unol â Chod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol. Mae'r Cod Ymddygiad yn seiliedig ar yr egwyddorion moesegol a nodir yn y 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus':

Anhunanoldeb | Uniondeb | Gwrthrychedd | Atebolrwydd

Bod yn agored | Gonestrwydd | Arweinyddiaeth

**Nodi'r Meysydd Risg : Diffiniadau**

| | |
|---|---|
| **Twyll** | Mae Deddf Twyll 2006, The Fraud Act 2006 yn diffinio categorïau twyll fel:<br>• ymhoniad anwir,<br>• methiant i ddatgelu gwybodaeth,<br>• camddefnyddio statws swydd.<br><br>Mae ymhoniadau anwir yn cynnwys y bwriad i weithredu mewn modd a fydd yn peri i chi neu rywun arall ymelwa, neu'n amlygu rhywun arall i'r perygl o golled.<br><br>Mae cyhoeddiad CIPFA "Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus", "The Public Sector Internal Audit Standards" yn diffinio twyll yn ei Eirfa fel: *unrhyw weithred anghyfreithlon a gaiff ei nodweddu gan gelwydd, cuddio neu'n mynd yn groes i ymddiriedaeth. Nid yw'r gweithredoedd hyn yn dibynnu ar fygythiad o drais neu rym corfforol. Caiff achosion o dwyll eu gweithredu gan bartïon a sefydliadau er mwyn cael arian, eiddo neu wasanaethau; er mwyn osgoi talu neu golli gwasanaethau; neu er mwyn sicrhau mantais bersonol neu fantais i fusnes.* |
| **Llygredd** | Mae Cynllun Gwrthlygredd Llywodraeth y DU, HM Government's UK Anti-Corruption Plan yn nodi nad oes diffiniad a dderbynnir yn gyffredinol ar gyfer 'llygredd'. Mae nifer o sefydliadau, gan gynnwys 'Transparency International' yn diffinio llygredd fel camddefnyddio pŵer a ymddiriedwyd er mwyn elwa'n bersonol. Mae Banc y Byd yn diffinio arfer 'llwgr' fel cynnig, rhoi, derbyn neu fynnu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, unrhyw beth o werth i ddylanwadu'n amhriodol ar weithredoedd parti arall. |
| **Llwgrwobrwyo** | Mae Deddf Llwgrwobrwyo 2010, The Bribery Act 2010 yn nodi troseddau llwgrwobrwyo fel:<br>• Llwgrwobrwyo person arall,<br>• troseddau sy'n ymwneud â chael eich llwgrwobrwyo. |

| | |
|---|---|
| **Llwgrwobrwyo** **(parhad)** | Gellir amddiffyn yr achos os oedd yr ymddygiad yn angenrheidiol am resymau penodol.<br><br>Mae canllawiau Gweinyddiaeth Gyfiawnder 2010 yn diffinio llwgrwobrwyo fel: *rhoi mantais ariannol neu fantais arall i annog y person hwnnw i gyflawni ei swyddogaethau neu ei weithgareddau mewn modd amhriodol neu i wobrwyo'r person hwnnw am fod wedi gwneud hynny eisoes.*<br><br>Mae sefydliadau masnachol yn atebol am fethiant i ddangos bod gweithdrefnau digonol ar waith i atal y troseddau hyn rhag digwydd. |
| **Gwyngalchu Arian** | Gwyngalchu arian yw'r term a ddefnyddir am nifer o droseddau sy'n cynnwys yr enillion sy'n deillio o droseddau neu derfysgaeth. Mae Deddf Enillion Troseddau 2002, yn nodi'r prif droseddau canlynol:<br><br>• Cuddio neu newid eiddo troseddol neu ei drosglwyddo eiddo neu ei symud o'r DU (adran 327);<br>• Ymrwymo i neu drefniant rydych yn gwybod neu'n amau ei fod yn hwyluso'r broses o gaffael, cadw, defnyddio neu reoli eiddo troseddol gan neu ar ran person arall (adran 328) neu gymryd rhan mewn trefniant o'r fath; a<br>• Caffael, defnyddio neu feddu ar eiddo troseddol (adran 329)<br><br>Hefyd, mae dwy drosedd ar wahân ychwanegol:<br>• methiant i ddatgelu unrhyw un o'r prif droseddau (adrannau 330-332) a<br>• rhybuddio rhywun (tipping off) (adran 333).<br><br>Rhybuddio rhywun yw pan fydd rhywun yn hysbysu person neu bobl sy'n rhan o achos o wyngalchu arian, neu yr amheuir eu bod yn rhan o'r achos, mewn ffordd a fydd yn lleihau'r tebygolrwydd y cynhelir ymchwiliad iddynt neu'n arwain at ragfarn mewn perthynas ag ymchwiliad.<br><br>Gellir amddiffyn yr achos mewn modd penodol pan fydd esgus rhesymol neu pan fydd y datgeliad wedi'i awdurdodi.<br><br>Er bod y risg y bydd y Cyngor yn mynd yn groes i'r ddeddfwriaeth hon yn isel, mae'n hynod bwysig bod pob cyflogai yn gyfarwydd â'u cyfrifoldebau cyfreithiol: mae sancsiynau troseddol difrifol yn gysylltiedig â thorri'r ddeddfwriaeth.<br><br>Y gofyniad allweddol ar gyflogeion yw adrodd yn brydlon ar unrhyw weithgareddau gwyngalchu arian a amheuir i'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian. |

**Meysydd Risg**

| | | |
|---|---|---|
| **Camymddygiad Asedau** | Yn digwydd pan fydd y rheini yr ymddiriedir ynddynt i reoli asedau sefydliad yn dwyn ohono. Gall asedau gynnwys arian parod, cyfwerth ag arian parod, asedau corfforol ond hefyd ddata neu eiddo deallusol | **Cofnodion cyflogres ffug**<br>**Cardiau prynu** |
| **Llwgrwobrwyo & Llygredd** | Cynnig, addo neu roi mantais ariannol neu fantais arall i berson arall gyda'r bwriad o'i gymell i gyflawni swyddogaeth neu weithgaredd amhriodol neu ei wobrwyo am yr un peth | **Cam-drin tendrau**<br>**Sicrhau dêl** |
| **Camddatganiad & Cham-adrodd** | Cam-recordio, cam-drin a cham-adrodd yn fwriadol am elfennau o berfformiad cwmni neu wybodaeth ffeithiol arall. Gall hyn fod yn rhan o nodau mewnol neu ofynion cytundebol neu ddeddfwriaethol | **Adrodd Rheoliadol** |
| **Perthnasau Trydydd Parti** | Mae risg twyll yn cynyddu wrth weithredu amryw o berthnasau trydydd parti sydd ddim o dan reolaeth uniongyrchol sefydliad. Efallai na fydd amcanion, rheolaethau a safonau moesegol yn cyd-fynd | **Gorgodi tâl**<br>**Amnewid deunydd** |
| **Twyll Gwybodaeth a Seibir** | Yn digwydd trwy hacio seibir soffistigedig ac yn manteisio ar wendidau corfforol ac ymddygiadol i ddwyn gwybodaeth hanfodol ac eiddo deallusol | **Manylion cleientiaid**<br>**Manylion corfforaethol** |
| **Gwrthdaro Buddiannau** | Yn digwydd pan fydd gweithwyr mewn sefyllfa fuddiannol iddynt hwy eu hunain, neu i drydydd parti sy'n agos atynt, gan gynnwys aelodau teuluol neu ffrindiau | **Cyflenwr sy'n eiddo i weithiwr** |


**Graddfa Twyll yn y Sector Cyhoeddus**

Yn ôl CIPFA, y mathau canlynol o dwyll yw'r rhai mwyaf cyffredin:

- Tai
- Dyled[1]
- Cyfraddau Busnes
- Twyll y dreth gyngor
- Camddefnyddio'r cynllun bathodyn glas
- Budd-dal tai
- Twyll arall[2]

1 'Dyled' yw osgoi talu dyled ac eithrio'r Dreth Gyngor,
2 Mae 'twyll arall' yn cynnwys gofal cymdeithasol, caffael, yswiriant, grant, pensiynau, buddsoddiadau, cyflogres a threuliau.

**Nodau ac amcanion**




Mae gan Gyngor Sir Ceredigion ddyletswydd i'r cyhoedd i ddiogelu arian y dylid ei ddefnyddio er budd y cyhoedd. Mae ymddygiad twyllodrus ar y raddfa hon yn bygwth yr Awdurdod; felly mae lefel uchel o ymrwymiad i sicrhau bod strategaeth effeithiol ar waith gyda'r nod o atal, darganfod, a ymchwilio.

*Nodi llwybr clir ar gyfer ymchwilio i achosion o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd, ac unrhyw gamymddygiad arall gan gynnwys gwyngalchu arian.

Bydd hyn yn caniatáu defnyddio arian cyhoeddus ar wasanaethau cyhoeddus (gan hybu'r economi, buddsoddi yn nyfodol pobl, caniatáu gwydnwch unigol a theuluol, a hyrwyddo cydnerthedd amgylcheddol a chymunedol) yn hytrach na chael ei golli i dwyll.

## 2. Diwylliant, Cyfrifoldeb ac Atal

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo diwylliant sy'n gallul gwrthsefyll bygythiadau o dwyll a llygredd. Mae'r Cyngor yn benderfynol y dylai diwylliant a naws y sefydliad gynnal gonestrwydd ac uniondeb. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod ei gyfrifoldeb i sicrhau ei fod yn rheoli ei risgiau o ran twyll a llygredd a bydd yn atebol am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd drwy ei adroddiadau a'i weithdrefnau llywodraethu.

Mae'r Cyngor yn cynnal nod penodol o sicrhau a chynnal ei allu i wrthsefyll twyll a llygredd, ac yn ymchwilio i gyfleoedd i sicrhau arbedion ariannol/atal colled ariannol drwy weithgareddau darganfod ac atal manylach.

Mae Rheoliadau Ariannol y Cyngor, Financial Regulations (para 1.8.3) yn nodi "na fydd y Cyngor, mewn perthynas ag atal twyll a llygredd, yn goddef twyll, llygredd nac unrhyw achosion o gamymddwyn wrth weinyddu ei gyfrifoldebau, boed hynny o'r tu mewn neu o'r tu allan i'r Cyngor. Disgwyliad y Cyngor o ran priodoldeb ac atebolrwydd yw bod Aelodau a chyflogeion ar bob lefel yn arwain drwy esiampl gan sicrhau eu bod yn cadw at ofynion, rheolau, gweithdrefnau ac arferion cyfreithiol. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl y bydd unigolion a sefydliadau (e.e. cyflenwyr, contractwyr, darparwyr gwasanaethau) y daw i gysylltiad â hwy yn ymddwyn tuag at y Cyngor gydag uniondeb a heb ddangos meddyliau neu weithredoedd sy'n ymwneud â thwyll a llygredd."

### Rolau a Chyfrifoldebau

| Rol | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| Aelodau Etholedig | Fel cynrychiolwyr etholedig, mae dyletswydd ar bob Aelod o'r Cyngor i amddiffyn arian y Cyngor a'r cyhoedd rhag unrhyw weithredoedd o dwyll a llygredd. Gwneir hyn drwy arferion sy'n bodoli eisoes, cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau, Cyfansoddiad y Cyngor gan gynnwys Rheoliadau Ariannol a Gorchmynion Sefydlog a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. |
| Swyddog Monitro | Y Swyddog Monitro sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl benderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod o fewn y gyfraith. Mae'r Swyddog Monitro hefyd yn hyrwyddo ac yn cynnal safonau uchel o ymddygiad drwy'r Awdurdod cyfan drwy ddatblygu trefniadau llywodraethu priodol gan gynnwys codau ymddygiad a safonau a pholisïau eraill, ynghyd â threfniadau adrodd a gorfodi priodol.<br><br>Y Swyddog Monitro yw'r Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol. Ef neu hi sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â gofynion statudol y Fenter Twyll Genedlaethol. Y Swyddog Monitro yw'r Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol hefyd. |

| | |
|---|---|
| Swyddog Adran 151 | Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldebau statudol fel y'u diffiniwyd gan adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (y "Swyddog Adran 151") ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol.<br>Mae 'gweinyddu priodol' yn cwmpasu pob agwedd ar reolaeth ariannol o fewn awdurdodau lleol gan gynnwys cydymffurfio â'r gofynion statudol ar gyfer cyfrifyddu ac archwilio mewnol. O dan y cyfrifoldebau statudol hyn mae'r Swyddog Adran 151 yn cyfrannu at fframwaith atal twyll a llygredd yr Awdurdod.<br>Dylid adrodd ar bob achos o dwyll neu afreoleidd-dra a amheuir i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael – gweler Pwynt 5 isod. Mae'r Swyddog Adran 151 hefyd yn Swyddog adrodd ar Wyngalchu Arian – gweler Pwynt 6 isod. |
| Archwilio Mewnol | Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn amddiffyn gwerth y sefydliad drwy ddarparu sicrwydd, cyngor a mewnwelediad gwrthrychol. Mae'n gwerthuso ac yn gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu. Bydd hyn yn helpu i atal y cyfleoedd o ran twyll, er nad dyma'r prif nod neu gyfrifoldeb.<br>Efallai y bydd yn ofynnol i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal ymchwiliad o ganlyniad i unrhyw afreoleidd-dra – gweler Pwynt 5 isod.<br>Mae'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol yn darparu Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar Atal Twyll ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.  Mae'r adroddiad yn crynhoi'r gwaith a wnaed gan y gwasanaeth archwilio mewnol i atal twyll. |
| Twyll a Gwallau yr Adran Gwaith a Phensiynau | Caiff yr holl bwerau o dan Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Twyll) 1992, Social Security (Fraud) Act 1992 eu harfer gan wasanaeth Twyll a Gwallau yr Adran Gwaith a Phensiynau, gan gynnwys y gwaith o ymchwilio i achosoion honedig o dwyll yn ymwneud â budd-dal tai.<br>Mae gan y Cyngor y pŵer i ymchwilio i dwyll sy'n ymwneud â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Cynhwysir y pwerau hyn o fewn Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013, The Council Tax Reduction Schemes (Detection of Fraud and Enforcement) (Wales) Regulations 2013. |
| Archwilwyr Allanol | Ar hyn o bryd mae rôl yr Archwilwyr Allanol yn cael ei gweithredu gan Archwilio Cymru, a all, fel arall, benodi corff cymeradwy arall i weithredu'r rôl hon ar ei rhan. Mae'r rôl hon yn cwmpasu:<br>• Archwilio datganiadau ariannol y Cyngor<br>• Ystyried risgiau camddatganiadau sylweddol yn y cyfrifon oherwydd twyll<br>• Ardystio grantiau dynodedig<br>• Asesu trefniadau gwerth am arian y Cyngor<br>• Gwerthuso perfformiad a gwelliant y Cyngor, ac<br>• Adolygu i ba raddau mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy. |

| | |
|---|---|
| Pob Cyflogai | Disgwylir i gyflogeion yr Awdurdod gadw at y 'Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol' a weithredir gan yr Awdurdod yn ogystal ag unrhyw god ymddygiad sy'n ymwneud â'u cymwysterau proffesiynol personol. Mae Cod yr Awdurdod yn cynnwys safonau a rheolau disgwyliedig i gynnwys y rhai sy'n ymwneud â datgan buddiant personol, lletygarwch a rhoddion.<br><br>Mae'n ofynnol i bob un o Aelodau a chyflogeion yr Awdurdod ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol ac unrhyw gynnig o roddion neu letygarwch sydd mewn unrhyw ffordd yn ymwneud â chyflawni eu dyletswyddau. Mae'n ofynnol i Brif Swyddogion wneud hyn yn flynyddol. Mae hefyd yn ofynnol iddynt ddatgelu unrhyw fuddiannau, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mewn perthynas â busnes yr Awdurdod e.e. cysylltiadau personol agos, contractau, cyfarwyddiaethau, bod yn aelod/glerc mewn cynghorau Trefol/cymunedol.<br><br>Caiff digonolrwydd a phriodoldeb rheolaethau mewnol, gweithdrefnau rheoli risg a llywodraethu yr awdurdod eu hadolygu'n annibynnol drwy archwiliad mewnol ac allanol. Bydd systemau sain yn caniatáu ar gyfer arloesi ond hefyd yn lleihau'r cyfle ar gyfer twyll neu unrhyw achos arall o gamddefnyddio. Dylai rheolwyr ymateb yn gadarnhaol i argymhellion archwiliadau allanol a mewnol os deuir o hyd i unrhyw wendidau yn eu meysydd cyfrifoldeb, drwy weithredu'r holl gamau sydd eu hangen i sicrhau bod gweithdrefnau digonol ar waith ac yn gweithredu yn unol â'r disgwyl.<br><br>Mae'r systemau TGCh a ddefnyddir gan y Cyngor yn logio'r defnydd o'r rhyngrwyd, e-bost, ffonau a systemau cymhwyso i gyfeiriad cyfrifiadur personol/gliniadur a rhif ffôn / rhif estyniad unigolion. Caiff pawb sy'n defnyddio systemau TGCh a ffôn eu hysbysu'n ffurfiol y caiff y logiau hyn eu monitro o bryd i'w gilydd gan gymryd camau priodol mewn perthynas ag unrhyw achos o gamddefnyddio. |
| Recriwtio | Mae'r Awdurdod yn cydnabod mai mesur ataliol wrth geisio atal twyll a llygredd yw cymryd camau effeithiol ar yr adeg recriwtio er mwyn creu cofnod o ddarpar gyflogeion yn nhermau eu priodoldeb a'u huniondeb. Felly, mae'n ofynnol i'r broses o recriwtio staff gyd-fynd â pholisïau Adnoddau Dynol yr Awdurdod, gan gynnwys Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd / Recriwtio Diogel. |
| Cyhoedd | Er bod y polisi hwn wedi'i anelu'n bennaf at y rhai o fewn y Cyngor, disgwylir hefyd y byddai aelodau o'r cyhoedd yn adrodd ar unrhyw ymddygiad twyllodrus er mwyn ymchwilio iddo yn ôl yr angen. |

## 3. Darganfod ac Ymchwilio

Y Grŵp Arwain a'r rheolwyr sy'n bennaf cyfrifol am atal a darganfod unrhyw achosion o afreoleidd-dra.

Mae'r Cyngor yn ystyried adroddiadau ac argymhellion a wneir gan Archwilio Cymru i daclo twyll yn effeithiol (e.e. 'Gwella ein Perfformiad' - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru a'r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-2020).

Mae rheolwyr yn creu cynlluniau busnes sy'n cynnwys risgiau eu busnes - gellir cynnwys twyll fel risg os bernir bod hynny'n briodol, gan nodi camau lliniaru. Mae rheolwyr yn defnyddio'r Meini Prawf Asesu Risg i sgorio'r risg o isel i ddifrifol. Mae rheolwyr yn sgorio'r risg o dwyll ar sail ei debygolrwydd (annhebygol i bendant), effaith y risg (dibwys i ddifrifol) ar sefyllfa ariannol y Cyngor, y gwasanaethau a ddarperir, iechyd a diogelwch ac ati. Os oes gan risg sgôr digon uchel caiff ei ychwanegu at Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor ac adroddir arno i'r Grŵp Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Bydd y Cyngor yn defnyddio dulliau o gydweithio a/neu bartneriaeth a chyfleoedd i reoli ei risgiau, lle y bo'n bosibl ac yn briodol.

Bydd y Cyngor yn hyrwyddo dull rhagweithiol ac adweithiol o ddarganfod a gorfodi. Ymhlith y camau a gymerir o fewn y Cyngor sy'n gallu darparu dangosyddion ar gyfer unrhyw weithgareddau twyllodrus mae:

**Rhagweithiol**

- Cynnal adolygiadau ac archwiliadau rheolaidd o systemau lle y mae incwm a/neu wariant sylweddol ynghlwm wrthynt, e.g. grantiau
- Sicrhau archwiliadau rheolaidd o'r rheolaethau allweddol sy'n bresennol o fewn prif systemau ariannol yr Awdurdod, e.e. cyflogres, taliadau credydwyr, ac ati
- Defnyddio technegau fel dadansoddi data i ddilysu data lle bo'n briodol, e.e. defnydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol o feddalwedd ActiveData.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i ddogfen yr Awdurdod ar gyfer Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed rhag Camdriniaeth, a pholisïau perthnasol eraill
- Gwneud defnydd o fentrau cenedlaethol a lleol i ddarganfod/atal twyll e.e. ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol
- Rhoi cyhoeddusrwydd i safle gwrth-dwyll a llygredd y Cyngor, a'r camau a gymerir yn erbyn twyllwyr
- Gweithredu ar hysbysiadau gan CIPFA, y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol a chyrff allanol eraill all rybuddio'r Cyngor ynghylch unrhyw dwyll cenedlaethol/ corfforaethol sydd ar droed
- Sicrhau bod rhif llinell gymorth yr Adran Gwaith a Phensiynau yn hawdd i'w ganfod
- Ymateb i unrhyw hysbysiadau a dderbynnir gan Awdurdodau Lleol, grwpiau rhwydweithio eraill ac ati, yn rhoi gwybod am unrhyw ymdrechion/ achosion o dwyll maent wedi'u hwynebu/cael gwybod amdanynt

**Adweithiol**

Darganfod twyll drwy ddadansoddi data a chudd-wybodaeth

Ymchwilio i gyfeiriadau ar achosion o dwyll

Gweithredu trefniadau chwythu'r chwiban effeithiol

Ceisio gwneud iawn, gan gynnwys adennill asedau ac arian lle y bo'n bosibl

Hyrwyddo'r defnydd o sancsiynau a'u cymhwyso, gan gynnwys rhai mewnol, ymddygiad, rheoleiddiol a throseddol

Er gwaethaf ymdrechion gorau cyflogeion, caiff achos o dwyll ei ddarganfod yn aml o ganlyniad i siawns neu 'rybudd'. Mae gan yr Awdurdod systemau ar waith i ymdrin ag achosion o'r fath yn gywir. Gall hyn fod trwy gymhwyso dogfennau'r Awdurdod, megis y Codau Ymddygiad, Rheoliadau Ariannol, System Cwynion, dogfen Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed rhag Camdriniaeth a/neu Bolisi Chwythu'r Chwiban, yn ogystal â'r Strategaeth hon.

Yn unol â Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod (Pwynt 1.8.3), dylid adrodd pob achos o dwyll neu afreoleidd-dra a amheuir i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael a/neu'r Rhelowr Corfforaethol - Archwilydd Mewnol. Gellid hefyd ei adrodd i'r Swyddog Monitro, o dan Bolisi Chwythu'r Chwiban.

Tra'n disgwyl proses ymchwilio ac adrodd, bydd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i atal colled pellach a diogelu cofnodion a dogfennaeth rhag cael eu symud neu eu haddasu. Efallai y bydd yn ofynnol i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal adolygiad i gryfhau gweithdrefnau a sicrhau nad yw achos o'r fath yn digwydd eto.

Bydd yr ymchwiliad i dwyll yn dibynnu ar natur yr achos. Efallai y bydd angen i Swyddog Ymchwilio a benodwyd gynnal ymchwiliad mewnol, a allai arwain at gamau gweithredu i ddisgyblu. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau a'r dystiolaeth sydd ar gael, gellid cyfeirio'r ymchwiliad at yr Heddlu neu gorff allanol priodol arall.

## 4. Rhwystro ac Ymwybyddiaeth

Pan fydd unigolion yn ystyried ymddwyn mewn modd twyllodrus, maent yn ystyried y wobr yn erbyn y risg sydd ynghlwm wrth y gweithredoedd. Os caiff ymddygiad twyllodrus ei ganfod a'i drin â chosbau difrifol, mae'n cynyddu'r ffactor risg sydd yn ei dro yn lleihau'r tebygolrwydd o weithredu'n dwyllodrus. Felly, mae codi ymwybyddiaeth o ganlyniadau cael eich canfod yn gwella effeithiolrwydd dulliau rhwystro fel:

Rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod yr Awdurdod yn gweithredu'n gadarn mewn perthynas â thwyll, llygredd ac unrhyw achos o gamymddwyn, ac yn nodi hyn ar bob cyfle priodol, e.e. cymalau mewn contractau, datganiadau ar ffurflenni hawlio, gwefannau a chyhoeddiadau.

Gweithredu'n gryf ac yn benderfynol pan gaiff unrhyw achos o gamymddwyn ei amau a'i brofi e.e. rhoi terfyn ar gontract, diswyddo cyflogai, erlyn twyllwyr.


Cymryd camau i sicrhau'r adferiadau mwyaf posibl ar gyfer yr Awdurdod, e.e. drwy gytundeb, achos llys, dirwyon.

## 5. Cynllun Ymateb i Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd

Bydd cyflawnwyr penderfynol bob amser yn dod o hyd i ffordd o amgylch systemau a gweithdrefnau. Felly, mae'n rhaid i bob swyddog ac Aelod fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n ofynnol os bydd achos o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd a amheuir yn codi. Mae'n hanfodol bwysig bod y cynllun yn cael ei ddilyn gan bawb dan sylw er mwyn sicrhau bod y sefyllfa yn cael ei thrin yn broffesiynol ac i ddiogelu yn erbyn cyfaddawdu'r achos.

### Hysbysu am Dwyll neu Lygredd a Amheuir

Caiff staff ac Aelodau etholedig yr Awdurdod eu hannog yn gadarnhaol i godi pryderon ynghylch twyll, llwgrwobrwyo a llygredd a amheuir. Gallant wneud hyn yn hyderus y caiff pryderon o'r fath eu trin yn gyfrinachol, cyhyd ag y bo'n bosibl. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth resymol i amheuaeth o weithredu'n anghywir. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod unrhyw honiad o unrhyw fath, gan gynnwys llythyrau neu alwadau ffôn, yn cael eu hystyried a'u hymchwilio'n drylwyr mewn dull priodol. Dylid adrodd unrhyw achosion ar frys. Y llwybr arferol ar gyfer mynegi pryder fyddai drwy reolwyr llinell.



Ar achlysur lle nad yw hyn yn briodol, gellid llwybr ac eithrio eu rheolwr llinell normal i godi pryderon o'r fath, er enghraifft drwy:

| | |
|---|---|
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael/swyddog adran 151** | Stephen Johnson<br>01970 633110<br>stephen.johnson@ceredigion.gov.uk |
| **Prif Weithredwr** | Eifion Evans<br>01545 572021<br>eifion.evans@ceredigion.gov.uk |
| **Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol** | Alex Jenkins<br>01970 633323<br>alex.jenkins2@ceredigion.gov.uk |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol– Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu/ Swyddog Monitro** | Elin Prysor<br>01545 572120<br>elin.prysor@ceredigion.gov.uk |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol– Pobl a Threfniadau** | Geraint Edwards<br>01545 572019<br>geraint.edwards2@ceredigion.gov.uk |
| **Archwilio Cymru** | 02920 320500<br>info@audit.wales |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol eraill** | Gweler Cyfeiriadur y Cyngor |
| **Arweinydd y Cyngor; Cabinet neu Aelodau eraill** | Gweler Wefan y Cyngor |

**Ymchwilio i Dwyll, Llwgrwobrwyo neu Lygredd a Amheuir**

Unwaith yr amheuir bod achos o dwyll wedi digwydd, mae'n hanfodol bod unrhyw ymchwiliad yn cael ei gynnal mewn dull proffesiynol gyda'r nod o sicrhau bod buddiannau cyfredol, a darpar fuddiannau, y Cyngor a'r unigolyn/unigolion a amheuir yn cael eu hamddiffyn. Mae'r olaf cyn bwysiced â'r cyntaf am na ddylai amheuaeth gael ei hystyried yn awtomatig fel euogrwydd.

Mae gan Wasanaeth Archwilio Mewnol yr Awdurdod brofiad o ymchwilio i dwyll. Mae'r Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol a'r Rheolwr Archwilio yn meddu ar Dystysgrif Ymarfer Ymchwilio CIPFA (CCIP). Mae'r Uwch Archwiliwr yn Dechnegydd Atal Twyll Achrededig (ACFTech). Yn unol â deddfwriaeth berthnasol a Rheoliadau Ariannol y Cyngor (Pwynt 1.8.2) mae gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol awdurdod i:

a) mynd i fewn i eiddo neu dir y Cyngor ar unrhyw amser rhesymol,

b) cael mynediad i'r holl asedau, cofnodion, dogfennau, gohebiaeth a systemau rheoli sy'n ymwneud ag unrhyw drafodion ariannol neu drafodion eraill y Cyngor.

c) gofyn am a derbyn unrhyw wybodaeth ac eglurhad yr ystyrir eu bod yn

angenrheidiol sy'n ymwneud ag unrhyw fater o dan ystyriaeth/ archwiliad,

d) gofyn i unrhyw gyflogai sy'n gweithio i'r Cyngor roi cyfrif am arian, storfeydd neu unrhyw eiddo arall y Cyngor o dan ei reolaeth ef/ rheolaeth hi, a

e) cael mynediad i gofnodion sy'n perthyn i drydydd partïon, fel contractwyr neu asiantaethau partner, yn unol â'r telerau cytundebol perthnasol.

Felly, efallai y bydd yn briodol gofyn i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal ymchwiliad. Fodd bynnag, os bydd yr honiadau o natur broffesiynol neu gamymddwyn arbenigol iawn, efallai y bydd angen i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael benodi arbenigwr arall fel y Swyddog Ymchwilio.  Mae'r Cyngor o bryd i'w gilydd yn hyfforddi 'cronfa' o ymchwilwyr mewnol ar draws yr holl wasanaethau; ac mae rhai staff gorfodi wedi derbyn hyfforddiant PACE.

**Trefniadau Adrodd**

Unwaith y bydd cam "darganfod" cychwynnol yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, dylai'r Swyddog Ymchwilio lunio Adroddiad Interim cyfrinachol ysgrifenedig yn unol â'r broses adrodd gytûn.

Dylai'r Adroddiad Interim nodi'r canfyddiadau hyd yma a'r casgliadau interim a ddaw o'r canfyddiadau hynny. Bydd hyn yn helpu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol / Cyfarwyddwr Corfforaethol sy'n gyfrifol am y maes yr ymchwilir iddo i benderfynu a ddylai'r ymchwiliad barhau i'r lefel nesaf.

Os bwriedir parhau â'r achos, bydd angen sicrhau bod y Prif Weithredwr, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac archwilwyr allanol yr Awdurdod yn ymwybodol o'r achos. Caiff Adroddiad Terfynol ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r holl waith ymchwilio angenrheidiol.

Ni fydd fformat yr Adroddiad Terfynol yr un fath bob tro am fod pob achos yn unigryw, ond yn aml bydd yn nodi:

- Sut y daeth yr ymchwiliad i'r amlwg,
- Pwy sy'n cael eu hamau,
- Eu swydd yn y Cyngor a'u cyfrifoldebau,
- Sut y cynhaliwyd yr ymchwiliad,
- Y ffeithiau a'r dystiolaeth a nodwyd, a (lle y bo'n briodol),
- Crynodeb o'r canfyddiadau a'r argymhellion.

Fel arfer caiff unrhyw wendidau a nodwyd yn ystod yr ymchwiliad eu hadrodd ar wahân mewn adroddiad archwilio mewnol.

Bydd yr Adroddiad Terfynol yn disodli'r holl adroddiadau eraill ac yn cael ei ystyried fel y ddogfen ddiffiniol y bydd y tîm rheoli (mewn sefyllfa ddisgyblu) ac o bosibl yr heddlu (mewn sefyllfa droseddol) yn seilio'u penderfyniadau cychwynnol arni.

Mae'n rhaid i'r holl adroddiadau gael eu cefnogi gan y dystiolaeth gryfaf a dylid osgoi cynnwys y gellid ystyried ei fod yn ddifenwol petai'r adroddiad yn cael ei wneud yn gyhoeddus.

Yn ôl y gyfraith, diffinnir difenwad fel: "the publication of a statement which tends to lower a person in the estimation of right-thinking members of society generally or which tends to make them shun or avoid that person". [Winfield]

**Cyfathrebu â'r Heddlu**

Dim ond yn dilyn trafodaeth rhwng y Swyddog Ymchwilio, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael, y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro y dylid gwneud cyswllt cychwynnol â'r Heddlu, gan mai nhw fydd yn ystyried a ddylid cyfeirio'r mater ar gyfer ymchwiliad pellach.

Pan fydd achos yn cynnwys person sy'n agored i niwed, caiff y penderfyniad ei wneud gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol statudol, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a/neu'r Tîm Diogelu.

Polisi'r Heddlu yw croesawu hysbysiad cynnar o achos o dwyll a amheuir. Bydd yr Heddlu yn ystyried a ddylid cyfeirio'r mater at Wasanaeth Erlyn y Goron er mwyn cael penderfyniad ynghylch a ddylid erlyn y sawl a amheuir am gyflawni trosedd.

Os bydd yr Heddlu yn penderfynu bod angen cynnal ymchwiliad ffurfiol, disgwylir ac mae'n ofynnol i bob aelod o staff gydweithredu'n llawn ag unrhyw geisiadau neu argymhellion dilynol. Fel arfer bydd pob cyswllt â'r Heddlu yn dilyn eu cyfranogiad cychwynnol yn digwydd drwy'r Swyddog Ymchwilio.

Pan fydd yr Heddlu yn penderfynu cynnal ymchwiliad ffurfiol, ni fydd hyn, os yw'n bosibl, yn dangos rhagfarn tuag at unrhyw weithdrefnau disgyblu mewnol; dylai'r rhain barhau fel arfer. Fodd bynnag, dylai'r ymchwiliad mewnol ac ymchwiliad yr Heddlu, lle bynnag a phryd bynnag y bo'n bosibl, gael eu cydlynu i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau a gwybodaeth.

Caiff hunaniaeth y cyflogai sy'n hysbysu'r Heddlu ei diogelu cyhyd ag y bo'n bosibl, yn unol â pholisi Chwythu'r chwiban.

**Camau disgyblu**

Bydd yr Awdurdod yn ymdrin ag unrhyw achosion o gamymddwyn yn gyflym ac yn drylwyr. Bydd cyflogeion yn wynebu camau disgyblu neu gamau eraill yn unol â Pholisïau Adnoddau Dynol y Cyngor.

Caiff camau disgyblu neu gamau eraill eu cymryd yn ogystal â, neu yn lle achos troseddol (mae hyn yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos unigol), yn unol â Pholisi Disgyblu'r Cyngor.

**Adnoddau**

Bydd y Cyngor yn:

- Gwneud asesiad blynyddol i wirio a yw'r lefel o adnoddau a fuddsoddwyd i atal twyll a llygredd yn briodol ar gyfer lefel y risg, yn ei ymateb blynyddol i'r archwiliwr allanol ynghylch materion sy'n gysylltiedig â thwyll.
- Defnyddio cymysgedd priodol o staff profiadol a medrus.
- Caniatáu mynediad di-rwystr i'w gyflogeion, gwybodaeth ac adnoddau eraill fel y bo'n angenrheidiol at ddibenion ymchwilio.
- Defnyddio cyfleusterau cydweithio a phartneriaeth, yn ogystal â rhannu data a chudd-wybodaeth i gefnogi gweithgareddau gwrth-dwyll.

## 6. Gwrth-Wyngalchu Arian

Daeth Rheoliadau Gwyngalchu Arian a Chyllido Terfysgaeth (Diwygio) 2019, (The Money Laundering and Terrorist Financing (Amendment) Regulations 2019) i rym ar 10 Ionawr 2020 ac maent yn gosod y diwygiadau i Reoliadau Gwyngylchu Arian, Cyllido Terfysgaeth a Throsglwyddo Cronfeydd (Gwybodaeth ar y Talwr) 2017, (Money Laundering, Terrorist Financing and Transfer of Funds (Information on the Payer) Regulations 2017). Mae Rheoliadau 2019 yn gweithredu 5ed Cyfarwyddeb yr UE ar Wyngalchu Arian.

Mae Rheoliadau 2017 yn berthnasol i "bersonau perthnasol" sy'n gweithredu mewn perthynas â'r busnes a gynhaliwyd ganddynt yn y DU. Mae personau perthnasol bellach yn rhwymedig i fabwysiadu dull sy'n fwy seiliedig ar risgiau o ymdrin â gwrth-wyngalchu arian, yn arbennig sut maent yn gweithredu diwydrwydd dyladwy.

Nid yw holl fusnes y Cyngor yn berthnasol at ddibenion y ddeddfwriaeth; fodd bynnag, y ffordd fwyaf diogel o sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith yw eu cymhwyso i bob maes gwaith.

Felly mae'n ofynnol i bob aelod o staff gydymffurfio â'r weithdrefn adrodd a nodir yn y polisi.

Y rhwymedigaethau ar y Cyngor yw:

- Penodi Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian i dderbyn datgeliadau gan gyflogeion am weithgareddau gwyngalchu arian;
- Gweithredu gweithdrefn i alluogi'r broses o adrodd ar amheuon o wyngalchu arian;
- Cynnal gweithdrefnau nodi cleientiaid mewn amgylchiadau penodol;
- Cynnal gweithdrefnau cadw cofnodion; a

- Cynnal asesiad risg o weithgareddau gwyngalchu arian a chyllido terfysgaeth a mabwysiadu rheolaethau mewnol priodol.

**Y Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian**

Y swyddog a enwebwyd i dderbyn datgeliadau ynghylch gweithgareddau gwyngalchu arian o fewn y Cyngor yw'r Swyddog Aweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151) y gellid cysylltu ag ef fel a ganlyn:

Stephen Johnson
Cyllid a Chafael
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
SY23 3UE
Ffôn: 01970 633110

**Nodi unrhyw sefyllfaoedd gwyngalchu arian posibl**

Gall y canlynol achosi i gyflogeion amau achos o wyngalchu arian, a dylid ei adrodd ar unwaith i'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian**:**

- Trafodyn sy'n cynnwys llawer o arian,
- Gwneud taliad arian parod lle mae'n rhaid gwneud ad-daliad yn ddiweddarach,
- Cwsmer cyfrinachol, e.e. gwrthod darparu gwybodaeth y gofynnir amdani heb eglurhad rhesymol,
- Pryderon ynghylch lleoliad neu hunaniaeth cwsmer,
- Addasu llwybr neu dderbyn arian gan drydydd partïon yn ddiangen neu drwy gyfrifon trydydd parti,
- Cyfranogiad trydydd parti heb gyswllt heb reswm cyfreithlon,
- Dim ffynonellau arian cyfreithlon amlwg,
- Rheolaethau cyfrifyddu mewnol neu gofnodion busnes gwan,
- Trafodyn blaenorol ar gyfer yr un cwsmer y dylid bod wedi'i adrodd neu sydd wedi'i adrodd i'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian,
- Unigolion neu gwmnïau sydd ag arian er eu bod yn ansolfent,
- Diffyg modd o olrhain y bobl sydd ynghlwm wrth yr achos.

**Taliadau arian parod**

Ni chaiff unrhyw daliad i'r Cyngor sy'n fwy na £5,000 ei dderbyn mewn arian parod (gan gynnwys papurau, darnau arian neu sieciau teithwyr mewn unrhyw arian cyfred) heb gymeradwyaeth y Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian.

### Adrodd i'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian

Os gofynnir i gyflogeion casglu taliad sy'n fwy na £5,000 mewn arian parod mae'n rhaid iddynt ddarparu manylion i'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian gan ddefnyddio'r ffurflen adrodd a atodir yn Atodiad 1, er mwyn cyflawni gwiriadau rhagofalus. Mae'n rhaid i'r adroddiad gynnwys cymaint o fanylion â phosibl. Nid yw hyn yn golygu na ddylai trafodion islaw'r swm hwn godi amheuon. Dylid arfer ymwybyddiaeth broffesiynol ar bob adeg, gan ystyried y ffactorau uchod.

Os bydd gan gyflogai sail resymol dros amau bod gweithgareddau gwyngalchu arian yn digwydd mewn perthynas â swm llai, dylid adrodd y mater i'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian yn yr un ffordd.

Yna, mae'n rhaid i'r cyflogai ddilyn yr holl gyfarwyddiadau gan y Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian ac ni ddylai wneud unrhyw ymholiadau pellach i'r mater eu hunain. Yn ogystal, ni ddylent gymryd unrhyw gamau pellach o ran y trafodyn heb gael awdurdod y Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian.

Er mwyn atal y sawl a amheuir rhag ddod yn ymwybodol o'r amheuaeth, ni ddylai'r cyflogai drafod y mater gydag eraill na nodi ar ffeil bod adroddiad wedi cael ei wneud i'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian.

Bydd y Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian yn gwerthuso amgylchiadau pob achos a gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid adrodd y mater i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA) drwy ei gwefan neu drwy'r llinell gymorth 24 awr: 0370 496 7622.

Pan ddaw'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian i'r casgliad nad oes sail resymol dros amau achos o wyngalchu arian yna gellid marcio'r adroddiad yn briodol a rhoi caniatâd i unrhyw drafodion parhaus neu drafodion sydd ar fin digwydd fynd rhagddynt.

Mae'n drosedd os bydd y Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian yn gwybod neu'n amau, drwy dderbyn datgeliad, bod person arall ynghlwm wrth weithgareddau gwyngalchu arian ac nad yw'n datgelu hyn cyn gynted â phosibl i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.

Mae'n rhaid i'r holl adroddiadau a wneir gael eu cadw gan y Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian mewn ffeil gyfrinachol a gedwir at y diben hwnnw, am isafswm o bum mlynedd.

### Diwydrwydd Dyladwy Cwsmeriaid

*Rheoliad 28 Mesurau diwydrwydd dyladwy cwsmeriaid – Rheoliadau Gwyngalchu Arian a Chyllido Terfysgaeth (Diwygio) 2019, Rheoliadau Gwyngalchu Arian, Cyllido Terfysgaeth a Throsglwyddo Cronfeydd (Gwybodaeth ar y Talwr) 2017*

Pan fydd y Cyngor yn cynnal busnes rheoledig (cyfrifyddiaeth, gwasanaethau archwilio a threth a gwasanaethau cyfreithiol, sy'n ymwneud â thrafodion ariannol, cwmni neu eiddo), a bod rhan o'r busnes hwn yn:

- Ffurfio perthynas fusnes barhaus gyda chleient,

- Ymgymryd â thrafodyn sengl neu achlysurol sy'n dod i €15,000 neu fwy, boed yn un trafodyn neu'n gyfres o drafodion, neu
- Arwain at amheuaeth o wyngalchu arian neu gyllido terfysgaeth:

yna mae'n rhaid dilyn y Weithdrefn Diwydrwydd Dyladwy cyn ymgymryd ag unrhyw fusnes ar gyfer y cleient hwnnw.

Mae diwydrwydd dyladwy cwsmeriaid yn golygu:

- Nodi'r cwsmer a gwirio hunaniaeth y cwsmer ar sail y wybodaeth a dderbynnir gan ffynhonnell ddibynadwy ac annibynnol, e.e. cynnal chwiliad yn Nhŷ'r Cwmnïau.
- Cael gwybodaeth am y diben a natur fwriadedig y berthynas fusnes.

Pan fydd y "busnes perthnasol" yn cael ei ddarparu i gorff sector cyhoeddus arall yn y DU yna dylid cael cyfarwyddiadau ysgrifenedig, wedi'u llofnodi ar bapur pennawd y corff cyn i'r trafodyn gael ei gwblhau.

Mae'r gofyniad am ddiwydrwydd dyladwy cwsmeriaid yn berthnasol ar unwaith ar gyfer cwsmeriaid newydd a dylid ystyried hyn ar sail sensitif i risg ar gyfer cwsmeriaid cyfredol. Mae diwydrwydd dyladwy cwsmeriaid yn golygu bod yn rhaid i'r Cyngor wybod ei gleientiaid a deall eu busnesau er mwyn pennu lle y mae gweithgareddau amheus y dylid adrodd arnynt.

Mae'r Rheoliadau yn mynnu bod y Cyngor yn adnabod ei gwsmeriaid ac yn gwirio'r hunaniaeth honno ar sail dogfennau, data neu wybodaeth a ddaw o ffynhonnell ddibynadwy. Pan fydd perchennog buddiol ond nad yw'n gwsmer, yna mae'n rhaid i'r Cyngor adnabod y person hwnnw a gwirio'r hunaniaeth. Pan fydd y perchennog buddiol yn ymddiriedolaeth neu'n sefydliad tebyg, yna mae'n rhaid i'r Cyngor ddeall natur strwythur reoli'r ymddiriedolaeth honno. Yn olaf, mae'n rhaid i'r Cyngor gael gwybodaeth ar ddiben a natur fwriadedig y berthynas fusnes. Mae Rheoliadau 2017 yn cyflwyno'r angen i'r Cyngor ystyried ffactorau risg o ran cwsmeriaid a daearyddiaeth wrth bennu pa diwydrwydd dyladwy sy'n briodol.

Mae'n rhaid i'r gwiriadau hyn yn gyffredinol gael eu cynnal gan y Cyngor cyn iddo sefydlu perthynas fusnes neu gyflawni trafodyn achlysurol, neu os mae'n amau achos o wyngalchu arian neu gyllido terfysgaeth neu'n amau gwirionedd unrhyw wybodaeth a gafwyd at ddibenion adnabod neu wirio. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i'r Cyngor gynnal y gwiriadau hyn os awdurdod cyhoeddus arall yw'r cwsmer, oni fydd yn amau achos o wyngalchu arian neu gyllido terfysgaeth.

Mae'r Cyngor hefyd yn rhwym i gynnal proses fonitro barhaus o ran ei berthynas fusnes, sy'n golygu bod yn rhaid iddo graffu ar drafodion drwy gydol y berthynas er mwyn sicrhau bod y trafodion yn gyson â gwybodaeth y Cyngor am y cwsmer a chadw'r wybodaeth ddiweddaraf am y cwsmer.

**Diwydrwydd Dyladwy Cwsmeriaid Manylach a Monitro Parhaus**

*Rheoliad 33 Ymrwymiad i weithredu mesurau diwydrwydd dyladwy cwsmeriaid anylach – Rheoliadau Gwyngalchu Arian a Chyllido Terfysgaeth (Diwygio) 2019, Rheoliadau gwyngalchu Arian, Cyllido Terfysgaeth a Throsglwyddo Cronfeydd (Gwybodaeth ar y Talwr) 2017*

Mewn amgylchiadau penodol, bydd yn angenrheidiol cynnal yr hyn a nodwyd yn y Rheoliadau fel Diwydrwydd Dyladwy Cwsmeriaid Manylach. Yn gryno, bydd hyn yn angenrheidiol:

- Pan na fydd y cwsmer yn bresennol yn gorfforol at ddibenion nodi hunaniaeth; neu
- Mewn unrhyw sefyllfa arall lle y mae ei natur yn golygu risg uwch o wyngalchu arian neu gyllido terfysgaeth.

Pan fydd hyn yn berthnasol, bydd angen i'r Cyngor gymryd mesurau digonol i gyfaddawdu am y risg uwch. Er enghraifft, bydd hyn yn golygu sicrhau bod hunaniaeth y cwsmer yn cael ei chadarnhau gan ddogfennau, data neu wybodaeth ychwanegol.

Yn yr achos hwn, mae'r Rheoliadau yn gosod rhwymedigaeth arbennig i gynnal proses fonitro barhaus o ran ei berthynas fusnes, sy'n golygu bod yn rhaid iddo graffu ar drafodion a gyflawnwyd yn ystod y berthynas er mwyn sicrhau bod y trafodion hyn yn gyson â gwybodaeth y Cyngor am y cwsmer, ei fusnes a phroffil risg; a chadw dogfennau, data neu wybodaeth a gafwyd at ddiben cymhwyso mesurau Diwydrwydd Dyladwy Cwsmeriaid yn gyfoes.

**Gwneud Iawn**

**Bydd y Cyngor yn ceisio gwneud iawn, gan gynnwys adennill asedau ac arian lle y bo'n bosibl. Gallai hyn gynnwys camau gweithredu i adennill trafodion yn unol â Deddf Enillion Troseddau 2002.**

**Cadw Cofnodion**

Pan fydd "busnes perthnasol" yn cael ei gyflawni, yna mae'n rhaid cadw tystiolaeth o hunaniaeth diwydrwydd dyladwy cwsmeriaid a manylion y trafodyn/trafodion perthnasol am y cleient hwnnw am o leiaf bum mlynedd.

## 7. Hyfforddiant

Bydd llwyddiant parhaus trefniadau Atal Twyll, Llygredd a Gwrth-Wyngalchu Arian yr Awdurdod yn dibynnu'n rhannol ar effeithiolrwydd hyfforddiant staff a'r gallu i ymateb drwy'r Awdurdod cyfan. Felly dylai'r rheolwyr sicrhau bod hyfforddiant a datblygiad digonol a phriodol yn cael eu darparu i'w staff, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'r system reoli fewnol.

Mae Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2017 yn mynnu bod staff perthnasol yn ymwybodol o'r gyfraith sy'n ymwneud â gwyngalchu arian a chyllido terfysgaeth, a gofynion cyfreithiol y ddeddf diogelu data, a'u bod yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ar

sut i adnabod ac ymdrin â thrafodion a gweithgareddau neu sefyllfaoedd eraill a all fod yn gysylltiedig â gwyngalchu arian neu gyllido terfysgaeth.

Dylai'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian gynnal cofnod ysgrifenedig o'r mesurau a gymerwyd a'r hyfforddiant a ddarparwyd.

Bwriedir darparu cyfres o seminarau ar Seiberdroseddu ar gyfer gweithwyr y Cyngor o Ebrill 2021 ymlaen; a bydd modiwl hyfforddiant ar Foeseg a Thwyll yn cael ei gyflwyno yng Ngweithdy Corfforaethol y Cyngor ar 28ain Mai 2021. Bydd Gweithdy Corfforaethol y Cyngor yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i godi ymwybyddiaeth o'r Strategaeth hon.

Mae MBL Seminars, y mae'r Cyngor yn tanysgrifio iddynt, yn cynnig seminarau ar Atal Gwyngalchu Arian.

Mae rheolwyr yn sicrhau bod staff yn cael gwybod am unrhyw gyfleoedd hyfforddiant eraill.

## 8. Casgliad

Mae gan yr Awdurdod rwydwaith clir o systemau a gweithdrefnau i frwydro yn erbyn twyll a llygredd sydd ar gael i'r holl randdeiliaid. Mae'n hanfodol bod y trefniadau hyn yn cyd-fynd â datblygiadau'r dyfodol mewn perthynas â thechnegau ataliol a darganfod.

**Atodiad 1**

CYFRINACHOL

## Adroddiad i'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian

Parthed: Gweithgareddau gwyngalchu arian a amheuir

Gan: ________________________________________(enw'r cyflogai)

Gwasanaeth: _______________________________ Rhif Estyniad: __________

Manylion y drosedd a amheuir:

| Enw(au) a chyfeiriad(au) y person(au) sy'n ymwneud â'r achos:<br>(os yw'n gwmni / corff cyhoeddus, rhowch fanylion natur y busnes) |
|---|
| |

| Natur, gwerth ac amseru'r gweithgareddau sy'n ymwneud â'r achos:<br>(dylech gynnwys manylion llawn e.e. beth, pryd, ble, sut; atodwch daenlen ar wahân os bydd angen) |
|---|
| |

| Natur yr amheuon mewn perthynas â gweithgareddau o'r fath:<br>Atodwch daenlen ar wahân os bydd angen |
|---|
| |

Llofnodwyd: ___________________________ Dyddiwyd: ________________

Peidiwch â thrafod cynnwys yr adroddiad hwn ag unrhyw un rydych yn tybio iddynt fod ynghlwm wrth y gweithgareddau gwyngalchu arian a ddisgrifiwyd. Byddai gwneud hynny o bosibl yn drosedd oherwydd y rhybudd, sy'n gallu arwain at uchafswm ddirwy o 5 mlynedd yn y carchar.